

Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus – Rheoli apwyntiadau dilynol cleifion allanol ar draws Cymru

Papur Tystiolaeth

Rheoli apwyntiadau dilynol cleifion allanol ar draws Cymru

Cyflwyniad

Yn 2015, cynhaliodd yr Archwilydd Cyffredinol (Swyddfa Archwilio Cymru) adolygiad o apwyntiadau dilynol cleifion allanol a chyhoeddwyd y canfyddiadau ym mis Mai 2016. Yn 2018, cynhaliodd yr Archwilydd Cyffredinol adolygiad pellach ar apwyntiadau dilynol cleifion allanol a chyhoeddodd adroddiad arall, gan grynhoi'r cynnydd a wnaed gan bob bwrdd iechyd ers 2015-16, gan gynnwys argymhellion ar gyfer y GIG a Llywodraeth Cymru.

Mae'r papur tystiolaeth hwn yn adrodd ar y cynnydd o ran gweithredu'r argymhellion a wnaed yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar **Reoli apwyntiadau dilynol cleifion allanol ar draws Cymru** a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2018. Rhennir y cyfrifoldeb dros gyflawni'r argymhellion yn yr adroddiad rhwng y Byrddau Iechyd a Llywodraeth Cymru.

Mae Adolygiad Iechyd y Senedd, ac ymateb Llywodraeth Cymru i'r adolygiad hwnnw "Cymru Iachach" yn disgrifio'r galwadau cynyddol a'r heriau newydd sy'n wynebu'r GIG a gofal cymdeithasol wrth ddiwallu anghenion newidiol y boblogaeth. Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys poblogaeth sy'n heneiddio, newidiadau i ffordd o fyw, disgwyliadau'r cyhoedd a thechnolegau meddygol newydd a rhai sy'n datblygu. Mae gwasanaethau gofal eilaidd wedi cael trafferth addasu. Nid yw cyflymder ac effaith gwelliannau wedi bod yn ddigonol, ond nid yw hyn yn unigryw i Gymru.

Mae adrannau cleifion allanol yn gweld mwy o gleifion bob blwyddyn nag unrhyw adran arall yn y GIG, gyda thua 3.1 miliwn o gleifion yn mynychu bob blwyddyn ledled Cymru. Mae adrannau cleifion allanol mewn gofal eilaidd yn gweld apwyntiadau newydd a dilynol yn ogystal â darparu rhai triniaethau.

Dros yr 20 mlynedd diwethaf, apwyntiadau dilynol cleifion allanol (mynychu adran cleifion allanol yn dilyn cyswllt cychwynnol neu bresenoldeb cyntaf fel claf allanol) yw tua thri chwarter yr holl weithgarwch cleifion allanol yng Nghymru. Mae gan ofynion dilynol y potensial i gynyddu ymhellach o dan y modelau gofal presennol gyda phoblogaeth sy'n heneiddio a thwf yn y rhai sydd â chyflyrau cronig a chymhlethodau. Mae'n hanfodol newid y model er mwyn sicrhau bod capasiti clinigol yn cael ei ddefnyddio i'r eithaf er mwyn bodloni gofynion y dyfodol a sicrhau gwell canlyniadau.

Mae gofal dilynol yn elfen allweddol o lwybr claf. Mae nifer o elfennau gofal pwysig y gellir eu cyflawni drwy'r broses hon:

- Penderfynu ar anghenion triniaeth.
- Cyflawni triniaeth.
- Adolygiad yn dilyn arhosiad brys neu arhosiad nad yw'n frys mewn ysbyty neu ymweliad â chlinig Damweiniau ac Achosion Brys (clinig) i barhau â thriniaeth.
- Adolygu canlyniadau ymchwiliadau.
- Cefnogi rheoli amodau neu fonitro a rheoli cleifion â chlefyd cronig neu gyflyrau gydol oes.
- Canfod dirywiad ac atal derbyniadau.
- Bodloni disgwyliadau cleifion.

Mae'r model sylfaenol ar gyfer darparu gwasanaethau cleifion allanol wedi aros yn gymharol ddigyfnewid ers dechrau'r GIG 70 mlynedd yn ôl. Ymgynghoriadau wyneb yn wyneb gydag arbenigwr mewn lleoliad clinig ysbyty yw'r rhain yn y bôn. Nid yw'r agwedd draddodiadol hon at wasanaethau cleifion allanol yn gallu cadw i fyny â'r galw cynyddol ac nid yw'n gallu sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl ar gleifion. Er bod angen rhai apwyntiadau dilynol ar gleifion allanol o safbwynt clinigol, efallai y bydd cyfran fawr yn ddiangen neu gellir eu cyflawni gan ddefnyddio model gofal amgen. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleoedd am hyblygrwydd o amgylch cleifion a mwy o ddefnydd o'r dechnoleg sydd ar gael.

Mae "Cymru Iachach" yn gwbl glir y bydd pobl ond yn mynd i ysbyty cyffredinol yn y dyfodol pan fydd hynny'n glinigol briodol, ac y bydd wedi'i gynllunio i leihau'r amser a dreulir yn yr ysbyty, ac i gyflymu gwellhad. Bydd y newid mewn adnoddau i'r gymuned yn golygu pan fydd angen gofal yn yr ysbyty, y gellir cael gafael arno'n gynt. Mae hyn yn golygu bod y model traddodiadol o wasanaethau cleifion allanol yn cael ei herio, ac mae cyfleoedd i gefnogi cleifion i fod yn arbenigwyr yn eu gofal eu hunain, lleoliadau shifft, defnyddio staff gwahanol a manteisio ar dechnoleg hefyd.

Er mwyn cydnabod yr angen brys i drawsnewid gwasanaethau gofal wedi'i gynllunio, sefydlwyd y Rhaglen Gofal wedi'i Gynllunio Genedlaethol yn 2015. Nod y rhaglen yw sicrhau gwasanaeth cynaliadwy ar gyfer arbenigeddau gofal wedi'i gynllunio. Mae'n gwneud hyn trwy weithio gyda sefydliadau'r GIG a'u cefnogi i wneud newidiadau effeithiol yn y ffordd y darparant eu gwasanaethau. Mae ffocws y gwaith ar yr arbenigeddau hynny lle mae naill ai risg glinigol i glaf yn dilyn aros hir am driniaeth neu lle mae'n rhaid aros yn annerbyniol o hir am driniaeth. Y meysydd hyn yw offthalmoleg, orthopaedeg, clustiau, trwyn a gwddf (ENT), wroleg a dermatoleg. Er bod y rhaglen wedi cael ei datblygu i gefnogi a gweithio ochr yn ochr â'r gwasanaeth, mae'n tynnu sylw'n gynyddol at feysydd sydd angen cydymffurfio a gwella. Mae natur ei chynghor yn dod yn fwy cyfarwyddol yn unol â disgwyliadau Llywodraeth Cymru.

Yr Adroddiad

Wrth grynhoi'r sefyllfa ledled Cymru, canfu'r Archwilydd Cyffredinol fod byrddau iechyd wedi gwneud rhywfaint o gynnydd mewn ymateb i'w argymhellion yn ei adroddiad yn 2016. Fodd bynnag, mae'r cyflymder a'r effaith ar leihau'r ôl-groniad o apwyntiadau dilynol sy'n cael eu gohirio yn gyfyngedig, gydag amrywiadau sylweddol rhwng arbenigeddau a byrddau iechyd ledled Cymru.

Cyflwynwyd yr adroddiad dilynol ar gleifion allanol i'r OSG (Hydref 2018), y Rhaglen Gofal wedi'i Gynllunio Genedlaethol (Tachwedd 2018) a'r Bwrdd Cynhyrchiant ac Effeithlonrwydd (Tachwedd 2018).

Mae adroddiad 2018 yn nodi nifer o argymhellion y mae pob un ohonynt wedi'u derbyn gan Lywodraeth Cymru. Cofnodir y camau a'r gweithgareddau allweddol a wnaed mewn ymateb i bob argymhelliad yn y papur hwn.

Gosod uchelgais glir – gosod targed a ffrâm amser clir i leihau nifer y cleifion sy'n aros ddwywaith cyn hired ag y dylent fod (h.y. oedi 100%).

Gweledigaeth / uchelgais ar gyfer cleifion allanol

Mae'r grŵp llywio cleifion allanol wedi nodi gweledigaeth ac uchelgais clir ar gyfer cleifion allanol (apwyntiadau newydd a dilynol). Crëwyd hyn ar ôl ymgynghoriad manwl â chleifion a chlinigwyr i bennu gweledigaeth ar gyfer cleifion allanol..

Y weledigaeth y cytunwyd arni ar gyfer cleifion allanol yw:

Cleifion Allanol ar gyfer Cymru'r
21ain Ganrif

Galluogi pobl i dderbyn y gofal
iawn, gan y person iawn, ar yr
amser iawn, yn y lle iawn.

- Perchnogaeth o iechyd a gofal trwy wella rolau cleifion a chymunedau
- Newid a moderneiddio rolau a ffiniau proffesiynol
- Ailystyried y lleoliad - yn agos at adref yn ddelfrydol
- Defnyddio gwybodaeth a thechnolegau newydd
- Defnydd deallus o ddata a mesur ar gyfer canlyniadau

Cydnabyddir y bydd newid y model traddodiadol o gleifion allanol yn cymryd amser ac mae angen i hyn gael ei yrru gan newid trawsnewidiol. Er mwyn cefnogi byrddau iechyd yn y maes hwn, mae'r Bwrdd Rhaglen Gofal wedi'i Gynllunio wedi cytuno y bydd ffocws yn y lle cyntaf ar bedwar llwybr ar gyfer trawsnewid, sef:

Orthopaedeg - lleihau nifer yr apwyntiadau dilynol ar y prif gymalau trwy ganlyniad y mae claf yn ei adrodd a thrwy apwyntiad rhithwir.


ENT – defnydd cyson o ganllawiau ar apwyntiadau dilynol sydd wedi'u datblygu i leihau apwyntiadau dilynol cyffredinol.

Wroleg - bydd cyflwyno llwybr hunanreoli â chymorth ar gyfer cleifion canser y prostad sefydlog yn lleihau'r angen am apwyntiadau dilynol wyneb yn wyneb rheolaidd.

Offthalmoleg - i sefydlu'r gwasanaethau yn y gymuned er mwyn i fwyafrif y cleifion glawcoma sefydlog gael eu gweld gan rywun nad yw'n feddyg.

Cytuno ar darged a ffrâm amser clir i leihau nifer y cleifion sy'n aros ddwywaith cyn hired ag y dylent fod

Mae nifer o fyrddau wedi bod yn ystyried natur targed ar gyfer apwyntiadau dilynol cleifion allanol, gyda Phrif Weithredwyr y GIG, Byrddau Rhaglenni Gofal wedi'i Gynllunio a'r Grŵp Llywio Cleifion Allanol wedi bod yn ei ystyried ymhlith eraill. Cytunwyd bod angen mabwysiadu dull clinigol ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol ac y dylai targedau newydd ganolbwyntio ar sicrhau nad yw cleifion yn dod i niwed tra eu bod nhw ar y rhestr aros. Er mwyn asesu hyn, mae byrddau iechyd wedi blaenoriaethu sicrhau bod gan bob claf ddyddiad adolygu y cytunwyd arno'n glinigol. Gwnaed cynnydd fel y dangosir yn ffigur 1 gyda gwelliant o 24% wedi'i gyflawni rhwng Mai 2018 a Mawrth 2019




Gellir priodoli rhan fawr o'r gwelliant hwn i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro fel rhan o'u hymrwymiad y cytunwyd arno i ddilysu eu ffigurau lleol. Maen nhw a'r holl fyrddau iechyd wedi ymrwymo i welliannau parhaus yn y maes hwn.

Disgwylir i'r gwelliant hwn barhau a gofynnwyd i fyrddau iechyd sicrhau bod gan bob claf ddyddiad adolygu erbyn diwedd mis Rhagfyr 2019, a bod systemau ar waith i sicrhau bod hyn yn parhau.


Er mwyn rheoli'r rhestr aros yn effeithiol, mae angen i fyrddau iechyd fod yn glir ynghylch pwy sydd angen eu gweld ac erbyn pryd. I wneud hyn, mae angen i fyrddau iechyd flaenoriaethu apwyntiadau ar gyfer y nifer o gleifion sy'n cael eu gohirio.

Mae Ffigur dau yn tynnu sylw at rai gwelliannau yn y flwyddyn gyfredol gan amlygu gostyngiad o 11% yng nghyfanswm y cleifion a gafodd eu gohirio dros 100% y tu hwnt i'w dyddiad adolygu targed.



O ystyried y potensial o risg i glinigwyr, mae'n ofynnol i fyrddau iechyd ganolbwyntio eu gweithgarwch ar arbenigeddau risg glinigol uchel fel cardioleg, wroleg ac offthalmoleg. Mae'n ofynnol iddynt sicrhau gostyngiad o 15% erbyn Mawrth 2020; gyda gostyngiad pellach o 20% (isafswm) yn y ddwy flynedd ddilynol. Bydd hyn yn arwain at ostyngiad o 31,800 yn y flwyddyn gyfredol, i'w ddilyn gan ostyngiad pellach o 42,000 y flwyddyn ganlynol, wedi'i ysgogi gan bwyslais ar risg glinigol. Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol fod Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi datblygu model cadarn ar gyfer asesu risg glinigol. Mae'r model wedi ei ddatblygu ymhellach a'i rannu gyda'r holl fyrddau iechyd fel sail ar gyfer datblygu eu dull mewnol eu hunain. Er mwyn cefnogi'r blaenoriaethu clinigol, cyflwynwyd mesur newydd ar gyfer yr holl gleifion gofal llygaid. Dyma'r tro cyntaf i darged gael ei osod ar gyfer cleifion newydd a chleifion dilynol ledled y DU ac mae'n arwydd o fwriad Cymru. Efallai y bydd hyn yn cael ei ehangu i arbenigeddau eraill. Lanswyd a chyhoeddwyd hyn gan y Gweinidog ym mis Awst 2018.

Mae angen lleihau maint cyffredinol y rhestr aros ar gyfer cleifion allanol newydd a dilynol o hyd. Dros y 12 mis diwethaf mae hyn wedi dechrau digwydd ac mae'r rhestr aros wedi gostwng tua 8% o fis Mai 2018 fel y dangosir yn ffigur 3. Bydd dilysu wedi'i dargedu a'i gynyddu yn parhau i gefnogi'r gostyngiad hwn.



Mewn ymateb i argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru, cytunwyd ar y targedau canlynol ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20:

- Pob bwrdd iechyd i fod wedi dyrannu dyddiad adolygiad clinigol i 95% o'r holl gleifion ar restr aros am apwyntiad dilynol - Rhagfyr 2019
- Pob bwrdd iechyd i fod wedi dyrannu ffactor risg glinigol i 98% o gleifion ar restr aros cleifion allanol gofal llygaid erbyn mis Rhagfyr 2019
- Pob bwrdd iechyd i adrodd yn fanwl ar symptomau llwybrau cleifion - Rhagfyr 2019
- Lleihau'r rhestr aros ar gyfer cleifion dilynol gan o 15% o leiaf erbyn Mawrth 2020, 20% pellach erbyn mis Mawrth 2021 a 20% pellach erbyn mis Mawrth 2022.
- Lleihau nifer y cleifion a gafodd eu gohirio o dros 100% o 15% o leiaf erbyn mis Mawrth 2020, 20% pellach erbyn mis Mawrth 2021 a 20% pellach erbyn mis Mawrth 2022.

Argymhelliad 2: Cryfhau'r strwythur cyflawni cenedlaethol ac

Argymhelliad 5: Cysoni blaenoriaethau'r adnoddau cenedlaethol

Mae strwythurau cyflawni cenedlaethol GIG Cymru i gyd yn cael eu hadolygu fel rhan o'r datblygiadau o fewn Gweithrediaeth y GIG a gynigir yn "Cymru Iachach". Mae hyn yn cynnwys cyflwr y rhaglenni cenedlaethol yn y dyfodol yn ogystal â'r strwythurau

cyflawni. Ni fydd hyn yn dileu cyfrifoldeb sefydliadol byrddau iechyd i ddarparu gwasanaeth cleifion allanol a sicrhau ansawdd a pherfformiad.

Er bod y broses ddatblygu ar gyfer Gweithrediaeth y GIG ar y gweill, mae PCPB ac OSG wedi adolygu eu dulliau llywodraethu a'u haelodaeth. Mae strwythur sylfaenol y ddau grŵp wedi cael eu hadolygu a'u cryfhau. Mae adnoddau ychwanegol ar gael i'r ddwy raglen, ar ffurf adnoddau staff. Cytunwyd ar gynllun gwaith y cytunwyd arno ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol. Cyflwynir diweddariadau ac adroddiadau rheolaidd i Brif Weithredwyr y GIG a Chyfarwyddwyr Meddygol y GIG. Mae Prif Weithredwr y GIG a Dirprwy Brif Weithredwr y GIG yn cyfarfod ag arweinydd clinigol y rhaglen yn rheolaidd i asesu cynnydd.

Mae'r PCPB yn cyfarfod bob chwarter, bydd yr OSG yn cyfarfod bob mis. Mae cyfarfodydd ychwanegol wedi eu trefnu gyda Phrif Swyddogion Gweithredu pob bwrdd iechyd yn chwarterol gyda Chadeirydd yr OSG a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud.

Argymhelliad 3: Datblygu cynllun clir i gefnogi datblygiadau ar lefel genedlaethol mewn gwasanaethau

Mae cynllun gwaith ar waith ar gyfer 2019/20 ac mae'r Bwrdd Rhaglen Gofal wedi'i Gynllunio wedi datblygu a chytuno ar hwn. Mae trosolwg ynghlwm yn Atodiad 1.

Mae gwaith wedi dechrau i ddatblygu Cynllun Cleifion Allanol Cenedlaethol. Mae pob bwrdd iechyd wedi cael y dasg o lunio eu Cynllun Cleifion Allanol i gyflawni'r gwelliannau a nodir yn y papur tystiolaeth hwn. Bydd hyn yn sail i gynllun gweithredol cenedlaethol.

Argymhelliad 4: Cynllunio gwasanaethau cynaliadwy

Roedd y canllawiau cynllunio blynyddol a gyhoeddwyd y llynedd yn cynnwys gofyniad i sicrhau bod cynlluniau'r byrddau iechyd ar gyfer 2019/20 yn cynnwys camau clir, wedi'u hariannu i ddatblygu gwasanaeth cleifion allanol cynaliadwy gyda chmau clir i ganolbwyntio ar y blaenoriaethau a amlinellwyd gan bob bwrdd arbenigedd. Mae pob bwrdd iechyd wedi llunio cynllun cynaliadwyedd i gleifion allanol ac wedi cyflwyno'r rhain i'r grŵp llywio cleifion allanol ar 1 Ebrill 2019. Bydd y tîm PCP yn awr yn gweithio gyda byrddau iechyd i sicrhau bod y cynlluniau hyn yn cael eu gweithredu.

Argymhelliad 6: Cryfhau a chanolbwyntio ar atebolrwydd perfformiad

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r GIG ar bob lefel i sicrhau bod holl argymhellion y rhaglen yn cael eu gweithredu. Mae disgwyliad clir y bydd byrddau iechyd yn rhoi'r rhain ar waith yn gyflym ac maent wedi'u cyfeirio'n llawn yng

ngynlluniau'r bwrdd iechyd fel blaenoriaethau. Mae gan Lywodraeth Cymru fframwaith cyflawni a pherfformiad cadarn. Ers mis Medi 2018, mae cleifion allanol, apwyntiadau dilynol cleifion allanol a'r mesur gofal llygaid newydd wedi'u hintegreiddio'n llawn i'r fframwaith hwnnw.

Mae perfformiad dilynol cleifion allanol a thrafodaethau ar gynaliadwyedd yn rhan annatod o bob cam o'r fframwaith fel a ganlyn:

- **Dangosfyrddau cleifion allanol** - Drwy'r grŵp llywio cleifion allanol cenedlaethol, datblygwyd dangosfwrdd â ffocws pendant gyda'r GIG i gofnodi ac adrodd ar gynnydd yn erbyn y meysydd a amlygwyd yn adolygiad Swydd Archwilio Cymru a'r targedau newydd sy'n cael eu cyflwyno. Caiff hyn ei ddiweddarau gan bob bwrdd iechyd bob mis. Caiff ei drafod a'i herio yn y grŵp cenedlaethol a thrwy gyfarfodydd ansawdd a chyflawni sefydliadol unigol. Mae trafodaethau grŵp yn caniatáu archwilio a rhannu arferion da ond mae hefyd yn darparu her gan gymheiriaid.
- **Galwadau ffôn ynghylch perfformiad** - cynhelir y rhain bob pythefnos gyda phob bwrdd iechyd i asesu eu darpariaeth a'u perfformiad parhaus. Mae'r trafodaethau hyn yn rhoi sylw i'r cynnydd a wneir yn lleihau apwyntiadau dilynol.
- **Cyfarfodydd Ansawdd a Chyflawni** - cynhelir y rhain yn rheolaidd rhwng tîm Cyflawni a Pherfformiad Llywodraeth Cymru ac uwch dimau arweinyddiaeth o fewn pob bwrdd iechyd. Nod y cyfarfodydd hyn yw asesu'r cynnydd a wnaed gan y bwrdd iechyd yn erbyn y cynlluniau y cytunwyd arnynt. Mae cleifion allanol dilynol a'r cynnydd a wnaed yn erbyn trawsnewid y system cleifion allanol yn eitem reolaidd ar yr agenda.
- **Cyfarfodydd Timau Gweithredol ar y Cyd** - cynhelir ddwywaith y flwyddyn rhwng Prif Weithredwr y GIG a'i uwch dîm, a Phrif Weithredwr bwrdd iechyd a'i uwch dîm.
- **Cyfarfodydd Cadeiryddion / Prif Weithredwyr** - er nad yw'n cael ei drafod ym mhob cyfarfod, caiff cynnydd yn erbyn y targedau apwyntiadau cleifion allanol dilynol sylw yn rheolaidd.

Yn ogystal â'r uchod, mae'r tîm gofal wedi'i gynllunio yn cynnal cyfarfodydd safle rheolaidd gyda phob bwrdd iechyd i gefnogi agwedd drawsnewidiol y rhaglen. Mae'n ofynnol i bob bwrdd iechyd adrodd ar gynnydd ym mhob un o'r byrddau gweithredu arbenigedd ac yn y grŵp llywio cleifion allanol. Mae'r grŵp llywio cleifion allanol wedi datblygu cerdyn sgorio i bob bwrdd iechyd ei gwblhau ac mae'n adrodd ar hynny'n fisol yn y cyfarfodydd cleifion allanol. Mae'n ofynnol i fyrddau iechyd dynnu sylw at y cynnydd y maent wedi'i wneud, rhannu arferion da a rhannu camau unioni lle bo'n briodol.

Argymhelliad 7: Cryfhau atebolrwydd clinigol

Mae'r Arweinydd Clinigol Gofal wedi'i Gynllunio wedi cyfarfod â Chyfarwyddwyr Meddygol i sicrhau eu cefnogaeth i'r Rhaglen ac mae'n ymgysylltu â nhw'n rheolaidd i rannu a chytuno ar flaenoriaethau ac arferion gorau. Mynychodd Prif Swyddog


Gweithredu Bwrdd Iechyd Bae Abertawe ac Uwch-swyddog Cyfrifol y Rhaglen Gofal wedi'i Gynllunio gyfarfod y Cyfarwyddwyr Meddygol ym mis Mawrth 2019. Mae tri Chyfarwyddwr Meddygol Cynorthwyol yn mynychu'r grŵp llywio cleifion allanol.

Rhennir adroddiad cynnydd y Rhaglen Gofal wedi'i Gynllunio â Chyfarwyddwyr Meddygol.

Mae gan y rhaglen bum grŵp gweithredu dan arweiniad clinigol ac mae gan bob grŵp Gadeirydd clinigol wedi'i enwebu gan y grŵp. Mae pob bwrdd iechyd yn cael eu cynrychioli'n weithredol gan eu harweinwyr clinigol ar y grwpiau hyn ac mae'r gwaith yn cael ei arwain yn glinigol. Er mwyn sicrhau bod yr ymgysylltiad clinigol priodol yn cael ei sicrhau, sefydlir grwpiau gorchwyl a gorffen i fwrw ymlaen â gwaith priodol. Mae'r grwpiau hyn yn gweithio o bell gan ganiatáu i bob clinigwr gymryd rhan fel y bo'n briodol. Mae ymgysylltiad clinigol da ym mhob un o'r byrddau arbenigedd ar draws y pum bwrdd clinigol.

Mae pob bwrdd iechyd wedi nodi bod trafodaethau ar y gweill gyda'u clinigwyr lleol i adolygu cynlluniau swyddi er mwyn adlewyrchu'n well eu hymrwymiad i weithio'n wahanol. Mae'n bwysig bod eu systemau'n mesur ac yn cipio gweithgarwch sy'n adlewyrchu dull llwybr sy'n canolbwyntio mwy ar y claf yn hytrach na phroses sy'n cael ei gyrru gan dargedau yn unig.

National Planned Care Programme



Workstream - Informatics / Electronic clinical coding

Workstream - PROMs / PREMS